

Image not found or type unknown

Eich cyfrifoldebau fel person cofrestredig

Gwybodaeth am eich cyfrifoldebau fel person cofrestredig.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 January 2017

Diweddariad olaf: 27 March 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cyfrifoldebau-ol-gofrestru> am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am eich cyfrifoldebau fel person cofrestredig.

Dilyn y Côt Ymarfer Proffesiynol

Mae'r [Côt Ymarfer](#) yn gosod y safonau ar gyfer pob gweithiwr gofal proffesiynol yng Nghymru. Hefyd, bydd angen i chi ddilyn [y canllawiau ymarfer ar gyfer eich swydd](#). Mae'r rhain yn ategu'r Côt gyda safonau sy'n berthnasol i'ch swydd chi yn benodol.

Os nad ydych yn dilyn y Côt, mae'n bosibl y byddwch yn cael eich cyfeirio atom. Os ydych yn gweld pobl yn gwneud pethau yn y gwaith sydd, yn eich barn chi, yn anniogel, neu bethau na fydddech yn disgwyl eu gweld gan weithiwr gofal cymdeithasol da, dylech gysylltu â ni.

Fel rhan o'n cyfrifoldeb i sicrhau bod gan weithwyr gofal cymdeithasol ar ein Cofrestr y sgiliau, y wybodaeth a'r cymeriad i gyflawni eu gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol, byddwn yn defnyddio'r Côt pan yn [delio â phryderon](#) a godwyd am bobl gofrestrdig.

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Rhaid i bawb sydd ar y Gofrestr gadw eu hyfforddiant a'u dysgu'n gyfredol. Rhaid i bobl gofrestrdig (ac eithrio myfyrwyr gwaith cymdeithasol) gadw cofnodion o'u DPP a thrafod yn rheolaidd gyda'u rheolwr i sicrhau ei fod yn helpu i wella'r gofal a'r cymorth maen nhw'n darparu.

Efallai byddwn ni'n gwirio sampl o gofnodion.

Rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch manylion.

Mae'n rhaid i chi ein hysbysu am newidiadau i'ch:

- enw
- teitl
- manylion cyswllt
- cyflogaeth
- cyfeiriad cartref
- cofrestriad gyda chorff rheoleiddio arall
- cofnod troseddol
- cofnod iechyd
- cofnod disgyblu.

Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl. Gall peidio â dweud wrthym arwain at gael eich cyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer.

Os ydych chi'n gweithio mewn mwy nag un [grŵp a reoleiddir](#), neu os byddwch yn newid y grŵp rydych chi'n gweithio ynddo, bydd angen i chi [newid eich cofrestriad](#).

Gallwch weld a diweddarau eich manylion ar unrhyw adeg yn eich [cyfrif SCWonline](#) yn yr adran 'Fy Mhroffil'.

Y rhaglen gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol

Mae'r rhaglen gydgrynhoi yn ofyniad ar gyfer yr holl weithwyr cymdeithasol a gymhwysodd ar ôl 1 Ebrill 2016.

Rhaid ei gwblhau yn ystod tair blynedd gyntaf ei gofrestriad.

Y rhaglen hon yw rhan gyntaf addysg a dysgu proffesiynol parhaus (CPEL). Am fwy o wybodaeth am y rhaglen gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ewch i [cymwysterau gwaith cymdeithasol](#).

Darparu tystiolaeth o'ch cofrestriad

Byddwch yn derbyn e-bost gennym yn cadarnhau eich cofrestriad ar ôl iddo gael ei ganiatáu. Nid ydym yn rhoi tystysgrifau cofrestru mwyach.

Os oes angen prawf arnoch eich bod wedi cofrestru gyda ni mewngofnodwch i'ch [cyfrif GCCar-lein](#) ac ewch i 'Prawf o gofrestru'.

Gallwch hefyd wirio'ch enw ar [y Gofrestr](#).

Adnoddau i'ch helpu chi

Mae'r Hanfodion Cofrestru yn dweud mwy am yr hyn sydd angen i chi ei wybod am eich cofrestriad hefo ni.

[Hanfodion Cofrestru](#)

PDF 2MB

[Hanfodion Cofrestru Myfyrwyr](#)

PDF 590KB

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).